

Dogfen ir Cyhoedd



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Mr Dylan J. Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

RHYBUDD O GYFARFOD	NOTICE OF MEETING
PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL	CORPORATE SCRUTINY COMMITTEE
DYDD MAWRTH, 22 TACHWEDD 2022 am 2:00 y. p.	TUESDAY, 22 NOVEMBER, 2022 at 2:00 p.m.
YSTAFELL BWYLLGOR 1 AC YN RHITHIOL DRWY ZOOM	COMMITTEE ROOM 1 AND VIRTUALLY VIA ZOOM
Swyddog Pwyllgor	Ann Holmes 01248 752518 Committee Officer

AELODAU / MEMBERS

Cynghorwyr / Councillors:-

PLAID CYMRU / THE PARTY OF WALES

Geraint Bebb, Neville Evans, Dyfed Wyn Jones (*Is-Gadeirydd*), Jackie Lewis,
Llio A. Owen, Alwen Watkin, Arfon Wyn

Y GRWP ANNIBYNNOL / THE INDEPENDENT GROUP

Dafydd Roberts

LLAFUR CYMRU/ WELSH LABOUR

Keith Roberts

ANNIBYNNWYR MÔN / ANGLESEY INDEPENDENTS

Douglas M. Fowle, Aled Morris Jones (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru/Welsh Liberal Democrats)
R. Llewelyn Jones (*Cadeirydd*)

AELODAU CYFETHOLEDIG (Gyda hawl pleidleisio ar faterion Addysg) / CO-OPTED MEMBERS (With voting rights when dealing with Educational matters)

Mr John Tierney (Yr Eglwys Gatholig / The Catholic Church)

Gwag/Vacant (Yr Eglwys yng Nghymru / The Church in Wales)

Gwag/Vacant (Rhiant Llywodraethwr – Sector Ysgolion Cynradd/Parent Governor – Primary
Schools Sector)

Llio Johnson (Rhiant Llywodraethwr – Sector Ysgolion Uwchradd ac ADY/Parent Governor-
Secondary Schools Sector and ALN)

Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cyhoeddus yr Awdurdod.

R H A G L E N

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

2 **COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL** (Tudalennau 1 - 6)

Cyflwyno cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 19 Hydref, 2022.

3 **MONITRO PERFFORMIAD: CERDYN SGORIO CORFFORAETHOL CH2 2022/23** (Tudalennau 7 - 20)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid.

4 **CYFRIFIAD 2021 - DATA POBLOGAETH YNYS MÔN** (Tudalennau 21 - 36)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid.

5 **ADRODDIAD AWDURDOD LLEOL YNYS MÔN AR AROLWG CHWARAEON YSGOL - CHWARAEON CYMRU** (Tudalennau 37 - 78)

Cyflwyno adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd.

6 **BLAEN RAGLEN WAITH** (Tudalennau 79 - 86)

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Sgrwtini.

PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 19 Hydref 2022

PRESENNOL:

Y Cynghorydd R. Llewelyn Jones (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Dyfed Wyn Jones (Is-gadeirydd)

Y Cynghorwyr Neville Evans, Aled M. Jones, Jackie Lewis, Llio A. Owen, Dafydd Roberts, Keith Roberts.

Aelod Cyfetholedig – Mr John Tierney (Yr Eglwys Gatholig)

Aelodau Portffolio

Y Cynghorwyr Gary Pritchard (Aelod Portffolio ar gyfer Plant – Gwasanaethau Cymdeithasol a Gwasanaethau Ieuencid), Alun Roberts (Aelod Portffolio ar gyfer Gwasanaethau Oedolion – Gwasanaethau Cymdeithasol), Y Cynghorydd Ieuan Williams (Aelod Portffolio ar gyfer Addysg a'r Iaith Gymraeg), Y Cynghorydd Robin Williams (Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid, Busnes Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer), Y Cynghorydd Nicola Roberts (Aelod Portffolio ar gyfer Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Newid Hinsawdd)

WRTH LAW:

Prif Weithredwr
Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol
Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc
Pennaeth Gwasanaethau Oedolion
Pennaeth Gwasanaethau Tai
Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo
Pennaeth Proffesiwn (AD) a Thrawsnewid
Rheolwr Rhaglen, Cynllunio Busnes a Pherfformiad (PM)
Rheolwr Gwasanaeth Tai Cymunedol (LW)
Prif Swyddog Datblygu (Tai) (AJ)
Rheolwr Sgrwtini (AG)
Swyddog Pwyllgor (AT)

YMDDIHEURIADAU:

Y Cynghorwyr Douglas M. Fowle, Llinos Medi Huws (Arweinydd y Cyngor)

**HEFYD YN
BRESENNOL:**

Mr John R. Jones (Cadeirydd y Pwyllgor Safonau), Mr Rhys Davies (Aelod o'r Pwyllgor Safonau) (presennol fel sylwedyddion), Mr Gethin Jones (Swyddog Cyfathrebu)

1 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

2 COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 26 Medi 2022 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

3 TLODI A HERIAU'R ARGYFWNG COSTAU BYW

Cyflwynwyd, i'r Pwyllgor ei ystyried a'i graffu, adroddiad y Prif Weithredwr yn amlinellu sut mae'r Cyngor yn ymateb i dlodi a heriau'r argyfwng costau byw cenedlaethol sy'n effeithio ar unigolion, teuluoedd, cymunedau, busnesau a chyrff eraill ar Ynys Môn. Roedd yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am argaeledd budd-daliadau a chymorth ariannol, y cynllun cinio ysgol am ddim a chynlluniau ataliol eraill.

Wrth osod y cyd-destun, dywedodd y Prif Weithredwr fod tlodi a heriau costau byw yn effeithio ar fywydau llawer o drigolion Ynys Môn erbyn hyn, gan gynnwys plant, ac mae'n cael effaith ar draws Cymru a rhannau eraill o'r Deyrnas Gyfunol hefyd. Mae prinder cyfleoedd gwaith o ansawdd, cyflogau digonol, dibyniaeth ar fudd-daliadau a chostau cynyddol oll yn cyfrannu at yr argyfwng. Mae cynnydd diweddar mewn chwyddiant, cyfraddau llog, morgeisi a chostau benthyg yn creu pwysau ychwanegol i unigolion, cymunedau, busnesau a sefydliadau. Mae'r ansicrwydd cyffredinol yn effeithio ar bawb, gan gynnwys y Cyngor, ac mae'n anodd darogan sut ac ymhle fydd mesurau pellach gan Lywodraeth y DU a Banc Lloegr yn effeithio ar bobl Ynys Môn. Er bod y newid diweddar ym mholisi Llywodraeth y DU, gan gynnwys y penderfyniad i beidio â pharhau â'r cynllun twf, wedi arwain at sefydlogrwydd ariannol i raddau, mae'r ansicrwydd yn parhau ar lawr gwlad. Dylai cyhoeddi cynllun economaidd newydd y Canghellor ar 31 Hydref, ochr yn ochr â rhagolwg gan y Swyddfa Cyfrifoldeb Cyllidebol, ddarparu mwy o eglurder mewn perthynas â chyflwyno unrhyw fesurau ychwanegol i frwydro yn erbyn yr argyfwng costau byw a'r sgil effeithiau ar gyllidebau Llywodraeth Cymru.

Sicrhaodd y Prif Weithredwr y byddai staff y Cyngor yn parhau i weithio'n galed yn y cyfamser i gefnogi trigolion Ynys Môn cystal ag y gallant. Er nad oes gwybodaeth gyfredol ar gael gan nad yw prosesau cenedlaethol ar gyfer casglu, dadansoddi ac adrodd ar ddata wedi eu hadfer yn llawn ers y pandemig Covid, dengys gwybodaeth a gasglwyd gan Gyngor Ar Bopeth mai'r pum prif fater yn gysylltiedig â'r argyfwng costau byw a welwyd yn lleol yn ystod y pum mis diwethaf yw taliadau annibyniaeth personol, capasiti ariannol, costau ynni, capasiti ariannol a digwyddiadau bywyd, a chynllun gostyngiadau'r Dreth Gyngor. Mae'r Cyngor yn ymwybodol fod tlodi plant wedi cynyddu ar Ynys Môn rhwng 2015 a 2021, yn ôl ffigyrau a ddarparwyd gan y Gynghrair Dileu Tlodi Plant. Mae cynnydd mewn costau tanwydd yn taro ardaloedd gwledig yn galed iawn ac er bod nifer y bobl sy'n hawlio budd-daliadau diweithdra wedi gostwng o 4.7% i 3.2% ym mis Awst 2022, mae'r newyddion am ddiswyddiadau posib yn ffatri Alpoco yng Nghaerdybi yn peri pryder. Mae'r Cyngor yn ceisio creu dadansoddiad mwy manwl a mwy cyfredol o ddangosyddion tlodi a chostau byw ond mae'n dasg heriol.

Er bod yr argyfwng wedi arwain at gynnydd yn y galw am nifer o wasanaethau sy'n gofyn am ddarparu ymyraethau a mesurau cymorth, ni welwyd yr un cynnydd mewn capasiti er mwyn delio â'r gwaith ychwanegol. Er gwaetha'r ansicrwydd a phwysau personol, mae ymrwymiad staff y Cyngor a'u dyhead i helpu eraill yn parhau i fod yn gryf ac mae angen diolch iddynt, ac yn arbennig staff rheng flaen a staff a fu'n prosesu taliadau budd-daliadau, ac sy'n parhau i wneud hynny.

Wrth weithio gyda chymunedau a sefydliadau eraill, bydd y Cyngor yn gallu cyflawni mwy ac mae'r trefniadau cydweithio rhwng y Cyngor a sefydliadau lleol, a weithiodd mor effeithiol yn ystod y pandemig, yn profi eu gwerth unwaith eto yn ystod yr argyfwng presennol. Mae'r Cyngor wedi diweddarau ei wefan er mwyn darparu gwybodaeth am ble gellir cael cymorth a chefnogaeth gyda chostau byw ac mae dolenni'n cael eu rhannu ar ei sianelau cyfryngau cymdeithasol. Er bod yr heriau presennol yn sylweddol, mae'r Cyngor yn gwneud popeth posib gyda'r adnoddau sydd ar gael i helpu pobl yn lleol trwy weinyddu budd-daliadau a

chymorth ariannol, cinio ysgol am ddim, a thrwy ddarparu amrywiaeth o wasanaethau cymorth ac ymyraethau amrywiol, a nifer ohonynt mewn partneriaeth â sefydliadau eraill. Bydd rhaid i'r Cyngor ei hun addasu yn wyneb y gostyngiad disgwylidig mewn cyllid ac adnoddau a hynny mewn cyfnod pan mae galwadau am gymorth gan y Cyngor yn cynyddu.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 drosolwg o'r buddiannau a'r cymorth ariannol sydd ar gael ac sy'n cael eu darparu i unigolion sy'n wynebu caledi ariannol. Roedd manylion am yr ymyraethau hyn wedi'u cynnwys yn Atodiad 1 yn yr adroddiad.

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl ifanc wybodaeth am sut mae'r Cyngor wedi rhoi'r Cynllun Cinio Ysgol am Ddim newydd ar waith, gan weithio gyda'r cwmni arlwygo, Chartwells, a'r Gwasanaeth Eiddo i wireddu'r cynllun hwn yn ysgolion Ynys Môn (Atodiad 2 yn yr adroddiad) a chyfeiriodd hefyd at y Rhaglen Cyfoethogi Gwyliau Ysgol fel elfen bwysig arall o'r cymorth a ddarperir gan y Gyfarwyddiaeth Ddysgu. Mae'r rhaglen yn darparu addysg ar fwyd a maeth, gweithgareddau corfforol, sesiwn gyfoethogi a phrydau iach yn ystod gwyliau'r haf i blant mewn ardaloedd sy'n wynebu amddifadedd cymdeithasol.

Esboniodd y Pennaeth Gwasanaethau Tai sut ac ymhle mae'r Cyngor yn darparu gwasanaethau ac ymyraethau, naill ai ar ei ben ei hun neu mewn partneriaeth, er mwyn lleihau effaith tlodi ar yr Ynys. Roedd y tabl yn Atodiad 3 yn yr adroddiad yn rhoi trosolwg o rai o'r meysydd tlodi a nodwyd y mae trigolion Môn wedi'u hwynebu ac yn parhau i wynebu ac mae'n amlygu'r risgiau a nodwyd a sut mae'r risgiau hyn yn cael eu lliniaru wrth i'r Cyngor weithio gydag asiantaethau partner.

Wrth gydnabod difrifoldeb a chymhlethdod yr argyfwng costau byw presennol, cydnabu'r Pwyllgor waith caled swyddogion y Cyngor wrth geisio lleddfu'r effeithiau gwaethaf ar bobl a chymunedau Môn trwy ddarparu cymorth ariannol, cefnogaeth a chyngor a thrwy gyfeirio unigolion a theuluoedd at sefydliadau eraill sy'n gallu cynnig cymorth. Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd, ystyriwyd y materion a ganlyn a darparodd Swyddogion eglurhad a sicrwydd ynghylch y camau sy'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r materion a godwyd -

- Niferoedd sy'n hawlio taliadau tanwydd gaeaf ac annog pobl sy'n gymwys i dderbyn y taliad i hawlio
- Pwysigrwydd cyfathrebu a chodi ymwybyddiaeth am y cymorth amrywiol sydd ar gael, yn enwedig ymysg y boblogaeth wledig a phobl nad oes ganddynt fynediad i gyfrifiadur a'r rhyngwyd.
- Digonolrwydd ymyraethau cenedlaethol wrth gefnogi unigolion a chymunedau ar Ynys Môn.
- Cost-effeithiolrwydd is-gontractio rhywfaint o'r gwaith asesu neu brosesu taliadau i gwmnïau allanol.
- Cefnogi ysgolion i ymateb i sefyllfaoedd sensitif os oes teuluoedd ar incwm isel nad ydynt yn gymwys i dderbyn cinio am eu bod ychydig yn uwch na'r trothwy incwm.
- Cynorthwyo pobl mewn ffyrdd eraill, ar wahân i gymorth ariannol, trwy eu cyfeirio neu ddarparu cyngor iddynt ar sut i ddefnyddio llai o ynni a gwella eu sgiliau cyllidebu a choginio er enghraifft, er mwyn lleihau costau bwyd.
- Bylchau mewn meysydd sydd angen eu hystyried ymhellach o safbwynt gwaith blaengynllunio'r Cyngor.
- Cyflymu'r gwaith o ddatblygu gwasanaeth dyledion yn y Gwasanaethau Tai er mwyn ategu a lleihau'r pwysau ar Gyngor Ar Bopeth, sef yr unig ddarpariaeth cyngor dyledion ar Ynys Môn.

Sicrhodd yr Aelodau Portffolio y Pwyllgor eu bod yn gweithio'n agos gyda Swyddogion yn y gwasanaethau y maent yn gyfrifol amdanynt i sicrhau eu bod ym ymwybodol o

ddatblygiadau ac i sicrhau fod y defnydd gorau'n cael ei wneud o adnoddau prin a bod y Cyngor yn derbyn gwerth am arian ym mhopeth a wna.

Penderfynwyd –

- **Nodi'r cynlluniau a'r ymyraethau sydd ar waith i gefnogi unigolion a chymunedau ledled Ynys Môn drwy'r argyfwng costau byw**
- **Nodi a derbyn cadernid a digonolrwydd y cynlluniau a'r ymyraethau sydd ar waith i gefnogi pobl yr Ynys.**

4 ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL 2021/22

Cyflwynwyd yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol ar gyfer 2020/21 i'r Pwyllgor ei ystyried a chyflwyno sylwadau arno. Mae'r adroddiad yn edrych yn ôl ar berfformiad y Cyngor yn 2021/22 ac mae'n nodi sut mae'r Cyngor wedi gwireddu disgwyliadau'r Ddogfen Gyflawni Flynyddol a'r Cynllun Trosiannol.

Cyflwynodd y Cyngorydd Robin Williams, yr Aelod Portffolio ar gyfer Cyllid, Busnes Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer, yr adroddiad a thynnodd sylw at rai o'r prif uchafbwyntiau o ran cynnydd yn erbyn y Cynllun Trosiannol a'r Ddogfen Gyflawni Flynyddol a chanlyniadau'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer 2021/22.

Wrth ystyried yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol, trafododd y Pwyllgor y materion a ganlyn –

- Gwersi i'w hystyried ar gyfer y Cynllun y Cyngor newydd yn sgil cwblhau'r prosiectau/amcanion yn y Cynllun Trosiannol a'r Ddogfen Gyflawni Flynyddol. Sicrhawyd y Pwyllgor fod arfer da yn cael ei nodi drwy adolygiadau gwasanaeth rheolaidd a'i fod yn cael ei raeadru i staff trwy'r fforwm rheolwyr ac, yn fwy diweddar, trwy'r rheolwyr busnes.
- Heriau cynnal perfformiad da y Cyngor yn ystod y cyfnod anodd y mae disgwyl iddo ei wynebu. Hysbyswyd y Pwyllgor fod y Cyngor yn wynebu heriau ariannol sylweddol gyda bwch posib o £18m yn y gyllideb yn ystod y cyfnod nesaf. Bydd y Cyngor yn gosod cyllideb gytbwys, yn unol â'r gofynion, ond bydd hynny'n heriol oherwydd yr ansicrwydd am y sefyllfa economaidd ar lefel genedlaethol a'r dyraniad cyllid y bydd Llywodraeth Cymru, ac yn sgil hynny, cyngorau Cymru'n ei dderbyn ac mae'n debygol y bydd rhaid i'r Cyngor ganfod arbedion sylweddol. Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn ymgynghori ar y Cynllun y Cyngor newydd – Ein Dyfodol – ac mae'n rhaid i amcanion strategol y Cynllun ar gyfer ei gyfnod cychwynol gydnabod yr hinsawdd y mae'r Cyngor yn gweithredu ynddi a'r cyfyngiadau y mae hynny'n ei greu. Gellir addasu ac ehangu'r amcanion hynny os a phryd fydd y sefyllfa economaidd yn gwella.
- Yr angen i sicrhau ymateb mor eang â phosib i'r ymgynghoriad ar y Cynllun y Cyngor newydd fel bod amrediad o safbwyntiau gan bobl a sefydliadau yn llywio blaenoriaethau'r Cyngor yn ystod y bum mlynedd nesaf. Sicrhawyd y Pwyllgor fod yr ymgynghoriad, a lansiwyd ar 20 Medi 2022 ac sy'n cau ar 14 Tachwedd 2022, wedi derbyn cyhoeddusrwydd mewn sawl gwahanol ffordd, gan gynnwys sianelau cyfryngau cymdeithasol, radio lleol, cyflwyniadau a thrwy ddsbarthu copïau papur i lyfrgelloedd, canolfannau hamdden ac Oriel Môn.
- I ba raddau mae'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol yn adlewyrchu gweithredoedd y Cyngor mewn perthynas â chynaliadwyedd amgylcheddol a gwarchod a gwella'r amgylchedd. Awgrymwyd y dylid rhoi mwy o sylw i faterion gwyrdd yn y Cynllun y Cyngor newydd ac, yn ogystal, y dylid cynnwys yr amgylchedd fel un o egwyddorion arweiniol sgritini o dan adran 3 yn y templed sgritini fel nodyn atgoffa parhaol i Aelodau pan fyddant yn craffu ar faterion. Hysbyswyd y Pwyllgor fod rhaid i'r Cynllun y Cyngor newydd gydbwysu'r amgylchedd a materion gwyrdd gyda materion cymdeithasol a chreu swyddi a chyfleoedd gwaith. Ar ôl mabwysiadu'r Cynllun gellir

datblygu cerdyn sgorio i gasglu mesurau rheoli perfformiad y Cyngor ar gyfer sero net a chynaliadwyedd amgylcheddol. Mae templedi adroddiadau a gwaith papur y Cyngor yn cael eu hadolygu drwyddynt draw i sicrhau fod materion gwarchod yr amgylchedd, sero net a lleihau carbon yn cael eu hystyried a bod hynny'n cael ei dystiolaethu yn y penderfyniadau a wneir gan y Cyngor. Y nod yw gwreiddio materion gwyrdd yn niwylliant a busnes o ddydd i ddydd y Cyngor. Mae'r Cyngor wedi datblygu Cynllun Bioamrywiaeth hefyd ac mae'n ofynnol adrodd arno bob blwyddyn a byddai modd ei gyflwyno i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol os yw'n dymuno hynny.

Fel rhan o argymhellion y Pwyllgor i'r Pwyllgor Gwaith mewn perthynas â'r Cynllun Perfformiad Blyneddol, awgrymodd y Cadeirydd y dylid cynnwys sicrhau cydbwysedd mewn perthynas ag agweddau bioamrywiaeth a sero net yn y Cynllun y Cyngor newydd. Er eu bod cytuno â'r safbwynt, roedd mwyafrif aelodau'r Pwyllgor o'r farn fod gwneud argymhellion ar gynnwys y Cynllun y Cyngor newydd yn gynamserol ar hyn o bryd gan nad yw'r ymgynghoriad ar y Cynllun yn cau tan ganol mis Tachwedd.

Penderfynwyd –

- **Argymhell i'r Pwyllgor Gwaith ei fod yn cytuno â chynnwys yr Adroddiad Perfformiad Blyneddol 2021/22 fel adlewyrchiad teg a chyflawn o waith yr Awdurdod yn ystod y cyfnod hwnnw a bod y Pwyllgor Gwaith yn argymhell i'r Cyngor ei fod yn ei fabwysiadu yn ei gyfarfod ar 27 Hydref 2022.**
- **Ychwanegu Cynllun Bioamrywiaeth y Cyngor i Flaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol.**

5 BLAEN RAGLEN WAITH

Cyflwynwyd i'w ystyried, adroddiad y Rheolwr Sgriwtini yn amlinellu Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol wedi'i diweddarau ar gyfer 2022/23.

Penderfynwyd –

- **Cytuno ar fersiwn gyfredol y Flaen Raglen Waith ar gyfer 2022/23.**
- **Nodi'r cynnydd a wnaed hyd yma o ran gweithredu'r Flaen Raglen Waith.**

**Y Cynghorydd R. Llewelyn Jones
Cadeirydd**

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN <u>Templed Adroddiad Sgrwtini</u>	
Pwyllgor:	Sgrwtini Corfforaethol
Dyddiad:	22 Tachwedd 2022
Pwnc:	Adroddiad Monitro'r Cerdyn Sgorio – Chwarter 2 (2022/23)
Pwrpas yr Adroddiad:	Herio Perfformiad
Cadeirydd Sgrwtini:	Cyng Robert Ll Jones
Aelod(au) Portfolio:	Cyng Robin W Williams
Pennaeth Gwasanaeth:	Carys Edwards
Awdur yr Adroddiad:	Gethin Morgan
Rhif Ffôn:	01248 752111
E-bost:	GethinMorgan@anglesey.gov.uk
Aelodau lleol:	Amherthnasol

1. Argymhelliad/ion

- 1.1. Hwn yw'r ail cerdyn sgorio ar gyfer y flwyddyn ariannol 2022/23. Mae'n dangos safle'r Cyngor yn erbyn ei amcanion gweithredol fel yr amlinellwyd ac y cytunwyd arnynt ynghynt yn y flwyddyn.
- 1.2. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at rai straeon cadarnhaol mewn perthynas â pherfformiad chwarter 1. Mae rhai o'r uchafbwyntiau hyn yn cynnwys:
- Canran yr aelwydydd (gyda phlant) a gafodd eu hatal rhag dod yn ddigartref
 - Nifer cyfartalog y dyddiau calendr a gymerwyd i osod unedau llety sy'n rhai y mae modd eu gosod
 - Mae pob un o ddangosyddion y Gwasanaethau Oedolion yn uwch na'r targed ar gyfer y chwarter
 - Cyfradd absenoldebau staff
- 1.3. Mae'r sefyllfa ar ddiwedd chwarter 2 yn gadarnhaol. Er bod hyn yn galonogol, mae'n bwysig nodi fod tueddiadau ar i lawr yn ymddangos yn erbyn nifer o ddangosyddion sy'n gysylltiedig â pherfformiad, yn arbennig mewn perthynas ag Amcan Llesiant 2. Bydd angen rhoi sylw penodol i'r dangosyddion hyn a phrosesau a ffrydiau gwaith cysylltiedig wrth i ni symud i mewn i fisoedd oer y flwyddyn, gyda thlodi tanwydd a thlodi bwyd yn cynyddu drwy'r amser yn ein cymunedau, yn ogystal â'r cynnydd mewn costau byw y mae pawb yn eu hwynebu
- 1.4. Gofynnir i'r pwyllgor argymell y mesurau lliniaru a amlinellir uchod.

2. Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Arall

Yn cael ei ddefnyddio fel rhan o broses monitro Cynllun y Cyngor

3. Egwyddorion Fel Canllaw ar gyfer Sgriwtini

Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-

3.1 Effaith mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

3.2 Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

3.3 Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

3.4 Craffu'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu warantu ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

3.5 Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:

- hirdymor
- atal
- integreiddio
- cydweithio
- cynnwys

[ffocws ar lesiant]

4. Cwestiynau Sgriwtini Allweddol

4.1. Mae'r adroddiad monitro yn trafod perfformiad da drwyddi draw ar ddiwedd Ch2. Pa sicrwydd y gellir ei gynnig fod mesurau lliniaru cadarn ar waith i ymateb i'r dangosyddion sy'n tanberfformio?

4.2. Sut y bydd angen addasu'r cerdyn sgorio presennol i sicrhau aliniad gyda Chynllun newydd y Cyngor?

4.3. Adroddir hefyd ar berfformiad ariannol y Cyngor. I ba raddau y bydd sefyllfa ariannol y Cyngor yn cael effaith ar berfformiad ein gwasanaethau rheng flaen?

5. Cefndir / Cyd-destun

5.1 Mae gan Gyngor Sir Ynys Môn drefniadau ar waith sy'n caniatáu i ni gael dealltwriaeth effeithiol o anghenion a blaenoriaethau lleol, ac i wneud y defnydd gorau posib o'r adnoddau a'r capasiti sydd gennym i gyflawni a gwerthuso effaith yr hyn a wnawn.

5.2 Mae ein Cynllun Trosiannol ar gyfer 2022/23 yn nodi'r anghenion a'r blaenoriaethau lleol ac mae'n amlinellu ein hamcanion ar gyfer y cyfnod cyn mabwysiadu Cynllun y Cyngor newydd ar gyfer 2023-2028 yn ddiweddarach eleni.

5.3 Defnyddir yr adroddiad monitro hwn ar y cerdyn sgorio i fonitro perfformiad y Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) a nodwyd gennym, sef cyfuniad o ddangosyddion lleol a chenedlaethol, wrth i'r Cyngor gyflawni gweithgareddau o ddydd i ddydd.

- 5.4 Mae'n darparu gwybodaeth i alluogi'r Cyngor i reoli perfformiad yn rhagweithiol ac, fel y cyfryw, mae'r adroddiad yn nodi unrhyw gamau lliniaru y cytunwyd arnynt gan y Tîm Arweinyddiaeth i yrru a sicrhau gwelliannau yn y dyfodol.
- 5.5 Mae'r cerdyn sgorio (atodiad 1) yn portreadu'r sefyllfa bresennol ar ddiwedd Chwarter 2 (Ch2) a bydd yn cael sylw pellach (ynghyd â'r adroddiad hwn) gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Gwaith yn ystod mis Medi.

6 – Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb [cynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]

Amherthnasol

7 – Oblygiadau Ariannol

Nodir yn yr adroddiad y sefyllfa ariannol diwedd Ch2.

8 – Atodiadau

Atodiad A - Cerdyn Sgorio Chwarter 2

9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):

Adroddiad Monitro Cerdyn Sgorio 2022/23 – Chwarter 1 (fel y cyflwynwyd ef i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Medi 2022 ac a dderbyniwyd ganddo.)

ADRODDIAD MONITRO'R CERDYN SGORIO – CHWARTER 2 (2022/23)

1. CYFLWYNIAD


- 1.1 Mae gan Gyngor Sir Ynys Môn drefniadau ar waith sy'n caniatáu i ni gael dealltwriaeth effeithiol o anghenion a blaenoriaethau lleol, ac i wneud y defnydd gorau posib o'r adnoddau a'r capasiti sydd gennym i'w cyflawni a gwerthuso effaith yr hyn a wnawn.
- 1.2 Mae ein Cynllun Trosiannol ar gyfer 2022/23 yn nodi'r anghenion a'r blaenoriaethau lleol ac mae'n amlinellu ein hamcanion ar gyfer y cyfnod cyn mabwysiadu Cynllun y Cyngor newydd ar gyfer 2023-2028 yn ddiweddarach yn ystod y flwyddyn ariannol hon.
- 1.3 Defnyddir yr adroddiad monitro hwn ar y cerdyn sgorio i fonitro perfformiad y Dangosyddion Perfformiad Allweddol (DPA) a nodwyd gennym. Mae'n cynnwys cyfuniad o ddangosyddion lleol a chenedlaethol. Mae'n dangos sut rydym yn cyflawni gweithgareddau o ddydd i ddydd y Cyngor. Mae'n darparu gwybodaeth i alluogi'r Cyngor reoli perfformiad yn rhagweithiol ac, fel y cyfryw, mae'r adroddiad yn nodi unrhyw gamau lliniaru y cytunwyd arnynt gan y Tîm Arweinyddiaeth i yrru a sicrhau gwelliannau yn y dyfodol.
- 1.4 Mae'r cerdyn sgorio (atodiad 1) yn portreadu'r sefyllfa bresennol ar ddiwedd Chwarter 2 a bydd yn cael sylw pellach (ynghyd â'r adroddiad hwn) gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Gwaith yn ystod mis Tachwedd 2022.

2. CYD-DESTUN


- 2.1 Mae'r DPA monitro perfformiad wedi'u halinio â thri amcan llesiant presennol y Cyngor a byddant yn cael eu datblygu a'u halinio â'r Cynllun y Cyngor newydd ar gyfer 2023-28 pan gaiff ei fabwysiadu yn ddiweddarach eleni:
 - Amcan 1 – Sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir
 - Amcan 2 – Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus er mwyn eu cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosib
 - Amcan 3 – Gweithio gyda'n cymunedau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau tra'n gwarchod ein hamgylchedd naturiol
- 2.2 Ni fydd modd cyhoeddi gwybodaeth ar gyfer pob Dangosydd Perfformiad Allweddol (DPA) ar y Cerdyn Sgorio pob chwarter oherwydd natur y dulliau casglu data. Yn y fath achosion, bydd nodyn yn dweud pa mor aml y mae'r DPA yn cael ei fonitro a phryd fydd y data ar gael i'w gasglu, e.e. (blynyddol) (Ch4), (bob tymor) (Ch3).
- 2.3 Mae unrhyw dargedau yn yr adroddiad yn cael eu hadolygu'n flynyddol a'u cytuno gyda phob gwasanaeth, gan gynnwys gwahanol dargedau chwarterol pan fydd angen yn seiliedig ar berfformiad a thueddiadau hanesyddol.
- 2.4 Mae pob canlyniad yn y cerdyn sgorio yn rhai cronol ac, fel y cyfryw, bydd y golofn tueddiadau'n rhoi gwybodaeth am dueddiadau mewn perfformiad o un chwarter i'r llall trwy gydol y flwyddyn.

3. PERFFORMIAD IECHYD CORFFORAETHOL

- 3.1 Mae'r mwyafrif (90%) o'r dangosyddion yn yr adran hon sydd â thargedau sy'n cael eu monitro yn perfformio'n dda yn erbyn eu targedau (Gwyrdd neu Felyn). Nodir rhai o'r uchafbwyntiau isod.
- 3.2 Ar ddiwedd Ch2, mae'r Cyngor yn WYRDD yn erbyn ei darged gyda 3.60 diwrnod wedi'u colli oherwydd absenoldeb am bob gweithiwr cyfwerth ag amser llawn (FTE) yn ystod y cyfnod, o gymharu â tharged o 3.81 diwrnod. Mae'r perfformiad hwn yn well na pherfformiad yn ystod yr un cyfnod y llynedd ac mae'n cymharu'n dda â'r tair blynedd diwethaf, fel y dengys y graff a ganlyn.



- 3.2.1 Nid yw'r dangosyddion sy'n cael eu monitro ar hyn o bryd yn yr adran Gwasanaeth Cwsmer yn amlygu unrhyw bryderon sylweddol gan fod y dangosyddion, ar y cyfan, yn perfformio'n dda yn erbyn y targedau.
- 3.2.1.1 Er bod hyn yn gadarnhaol, rydym yn cydnabod bod angen gwneud rhagor o waith mewn perthynas â dangosydd 09 - % y ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth sy'n derbyn ymateb o fewn yr amserlen – sydd yn dangos fod 72.1% o'r ymatebion o fewn yr amserlen yn erbyn targed o 80%. Mae'r perfformiad hwn yn well na'r 66.6% a nodwyd yn adroddiad monitro'r cerdyn sgorio ar gyfer Chwarter 1.



- 3.3 Ar hyn o bryd, ar ddiwedd Chwarter 2, mae'r adran rheolaeth ariannol yn rhagweld tanwariant o £1.128m ar gyfer y flwyddyn a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2023. Mae pryder am nifer o feysydd nad ydynt amlwg efallai yn y ffigur cyffredinol hwn ac mae'n amlygu risgiau mewn perthynas â sefyllfa ariannol y Cyngor yn y dyfodol.
- 3.4 Mae'r prif feysydd pryder yn ymwneud â:-
- 3.4.1 Y ffaith fod y cynnig tâl yn sylweddol uwch na'r hyn y mae'r gyllideb yn caniatáu ar ei gyfer ac nid yw hyn yn cael ei adlewyrchu yn y rhagolwg presennol. Er bod cronfa glustnodedig ar gael fydd yn gwrthbwysu cyfran helaeth o'r gost ychwanegol, efallai na fydd yn ddigon i gwrdd â'r gost ychwanegol yn llawn. Mae'n rhaid i'r gyllideb sylfaen ar gyfer 2023/24 ddarparu ar gyfer y cynnydd yn y gost hefyd, yn ogystal â'r dyfarniad cyflog ar gyfer 2023/24.
- 3.4.2 Mae'r sefyllfa mewn perthynas â Gofal Cymdeithasol yn destun pryder penodol, ac amcangyfrifir gorwariant o £1.361m yn y Gwasanaethau Oedolion a Phlant. Serch hynny, mae'r sefyllfa wirioneddol yn cael ei chuddio oherwydd bod grantiau ychwanegol a chronfeydd wrth gefn yn cael eu defnyddio i ostwng y tanwariant. Y sefyllfa wirioneddol yw y bydd rhwng £3.5m a £4m o orwariant. Mae hyn yn seiliedig ar lefel bresennol y galw. Bydd unrhyw gynnydd yn y galw am wasanaethau'n gwaethygu'r sefyllfa.
- 3.4.3 Yn y pendraw, bydd problemau costau byw yn arwain at gynnydd yn y galw am wasanaethau'r Cyngor (Digartrefedd, Cyngor ar Ddyledion, Cefnogaeth Iechyd Meddwl, Gwasanaethau Plant) a gallai arwain at ostwng incwm gwasanaethau megis hamdden, diwylliant, cynllunio a ffioedd parcio wrth i bobl wario llai ar eitemau nad ydynt yn hanfodol. Gallai'r newidiadau posib hyn yn y galw am wasanaethau gael effaith negyddol ar sefyllfa ariannol y Cyngor.
- 3.5 Bydd y sefyllfa ariannol yn 2022/23 yn cael effaith hefyd ar strategaeth ariannol y Cyngor ar gyfer 2023/24 a thu hwnt, gan y bydd yn amlygu'r angen i ail-alinio cyllidebau er mwyn adlewyrchu'r cynnydd mewn costau yn 2022/23 ac adlewyrchu'r newid yn y galw am wasanaethau. Yn ogystal, bydd unrhyw orwariant sylweddol yn arwain at erydu cronfeydd wrth gefn a balansau cyffredinol a bydd yn lleihau'r gallu i ddefnyddio cronfeydd wrth gefn a balansau i gynorthwyo i gydbwysu'r gyllideb refeniw yn 2023/24.
- 3.6 Y tanwariant a ragwelir ar y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2021/22 yw £6.219m, a gallai lithro i'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2023/24. Bydd y cyllid ar gyfer y llithriad hwn hefyd yn llithro i 2023/24 a bydd yn cael ei ystyried wrth lunio'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli Trysorlys, y Strategaeth Gyfalaf a'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2023/24.
- 3.7 Mae rhagor o wybodaeth am reolaeth ariannol ar gael yn yr 'Adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw ar gyfer Chwarter 2', 'Adroddiad Monitro'r Gyllideb Gyfalaf ar gyfer Chwarter 2' ac 'Adroddiad Monitro'r Gyllideb Refeniw Tai ar gyfer Chwarter 2' a fydd yn cael eu trafod yng nghyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 29 Tachwedd.
- 3.8 Mae hyn yn dangos y gellir rhoi sicrwydd rhesymol trwy ddefnyddio dadansoddiad y cerdyn sgorio, fod gweithgareddau dydd i ddydd y Cyngor, o ran rheoli
- pobl
 - cyllid, a

- gwasanaethu ei gwsmeriaid


yn cyflawni yn unol â'r disgwyliadau ac i safon briodol.

Mae hefyd yn darparu sail a thystiolaeth o ethos rheoli perfformiad da sy'n cael ei adlewyrchu yn y ffaith fod y dangosyddion, o'r safbwynt hwnnw, yn portreadu perfformiad boddhaol hefyd.

4. RHEOLI PERFFORMIAD

- 4.1 Ar ddiwedd Chwarter 2, mae'n galonogol nodi fod y mwyafrif (94%) o'r dangosyddion perfformiad yn perfformio'n well na'r targed neu o fewn 5% i'w targedau. Mae dau ddangosydd wedi tanberfformio yn erbyn eu targedau yn ystod Chwarter 2 ac maent yn cael eu dangos ar y cerdyn sgorio mewn Coch neu Ambr.
- 4.2 Mae perfformiad pob dangosydd yn gysylltiedig â'n hamcan llesiant cyntaf, **Amcan 1**, lle'r ydym yn gweithio i sicrhau fod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir, wedi bod yn wyrdd yn erbyn eu targedau.
- 4.3 Mae rhai enghreifftiau o'r perfformiad da a welwyd o dan yr amcan hwn yn ystod y chwarter yn cynnwys:
- 4.3.1 Dangosydd 7 – Nifer yr ymweliadau â Chanolfannau Hamdden – sydd â pherfformiad o 261k o gymharu â tharged o 253k. Mae hyn yn well na'r perfformiad a welwyd cyn y pandemig, yn ystod Chwarter 2 2019-20, pan gofnodwyd 244k o ymweliadau yn ystod y cyfnod.
- 4.3.2 Dangosydd 11 – Nifer yr eiddo gwag sy'n dod yn ôl i ddefnydd – gyda 40 eiddo wedi dod yn ôl i ddefnydd yn erbyn targed o 25. Unwaith eto, mae defnyddio Premiwm y Dreth Gyngor wedi dwyn ffrwyth yn y maes hwn ac mae'n gadarnhaol bod 40 llai o dai gwag yn ein cymunedau.
- 4.3.3 Dangosydd 10 – Canran y cleientiaid NERS y mae eu hiechyd wedi gwella ar ôl cwblhau rhaglen ymarfer – gyda 81.5% o gleientiaid yn credu fod y rhaglen wedi cael effaith gadarnhaol ar eu hiechyd. Roedd hyn yn welliant o gymharu â'r canlyniad o 75% a welwyd ar ddiwedd Chwarter 1 2022/23.
- 4.4 Mae dangosyddion ar gyfer yr ail amcan llesiant, **Amcan 2**, lle'r ydym yn cynorthwyo oedolion a theuluoedd bregus er mwyn eu cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosib, yn perfformio'n dda yn erbyn eu targedau hefyd a dim ond un o'r dangosyddion sy'n tanberfformio.
- 4.5 Mae'n bwysig nodi serch hynny, er bod perfformiad yn erbyn y targedau yn wyrdd neu'n felyn ar y cyfan, mae 60% o'r tueddiadau cysylltiedig yn disgyn. Bydd angen rhoi sylw penodol i'r dangosyddion hynny a phrosesau a ffrydiau gwaith cysylltiedig wrth i ni symud i mewn i fisoedd oer y flwyddyn, gyda thlodi tanwydd a thlodi bwyd yn cynyddu yn ein cymunedau, ynghyd â chynnydd mewn costau byw i bob un ohonom.
- 4.5.1 Dangosydd 23 – Mae'r amser cyfartalog a dreuliodd pob plentyn ar y gofrestr amddiffyn plant yn ystod y flwyddyn, ac a gafodd eu dadgofrestru yn ystod y flwyddyn – yn GOCH gyda pherfformiad o 312 diwrnod yn erbyn targed o 270 diwrnod. Mae'r perfformiad wedi gwella o gymharu â'r 337 diwrnod a welwyd ar

ddiwedd Chwarter 1 ac mae ychydig yn well na'r 318 a nodwyd ar ddiwedd 2021/22.



Mae'r dangosydd hwn yn cyfrifo nifer y plant sydd wedi cael eu tynnu oddi ar y gofrestr amddiffyn plant yn ystod y deuddeg mis diwethaf, a hynny ar sail ffigyrau treigl. Mae 34 o blant yn y cohort hwn ar hyn o bryd ac mae nifer y diwrnodau a dreuliodd ganddynt ar y gofrestr yn amrywio o 84 diwrnod i 834 diwrnod.

Mae 48 o blant yn parhau i fod ar y Gofrestr Amddiffyn Plant a'r nifer cyfartalog o ddiwrnodau ar y gofrestr yw 189, gan amrywio o 3 diwrnod i 848 diwrnod.

Bernir y dylid cynnwys dangosydd gwahanol, sef amser cyfartalog y mae pob plentyn wedi ei dreulio ar y gofrestr amddiffyn plant (CAP), ochr yn ochr â'r dangosydd hwn. Defnyddir y dangosydd newydd hwn i reoli perfformiad y dangosydd presennol a dylai hynny arwain at wella perfformiad y ddau ddangosydd dros amser.

4.6 Fel y nodwyd (4.4), o'r dangosyddion hynny sy'n perfformio'n dda, mae enghreifftiau o'r perfformiad da a welwyd yn ystod y chwarter yn cael eu hamlygu. Maent yn cynnwys:

4.6.1 Mae dangosyddion y Gwasanaethau Oedolion (Dangosyddion 16 i 19) i gyd yn Wyrdd yn erbyn eu targedau unwaith eto yn ystod y chwarter.

4.6.2 Mae'r dangosyddion Digartrefedd (Dangosyddion 26 a 27) ar gyfer y Gwasanaeth Tai hefyd wedi perfformio'n dda ac mae'r ddau yn Wyrdd yn erbyn eu targedau yn ystod y chwarter.

4.7 Pwynt i'w nodi – yn adroddiad monitro'r cerdyn sgorio ar gyfer Chwarter 1 nodwyd fod canran yr asesiadau plant a gwblhawyd ar amser (dangosydd 20) yn 78.02% ac yn Goch yn erbyn ei darged. Roedd camgymeriad wrth gyfrifo perfformiad y dangosydd hwn ac mae hynny wedi cael ei gywiro yn awr – y ffigwr cywir ar gyfer Chwarter 1 oedd 87.9% ac roedd yn Felyn yn erbyn ei darged. Mae'r dangosydd hwn wedi gwella yn ystod Chwarter 2 a chofnodwyd perfformiad o 89.24%, sef ychydig yn is na'r targed o 90%.

4.8 Mae perfformiad ein dangosyddion i fonitro ein trydydd amcan llesiant, **Amcan 3**, lle'r ydym yn gweithio gyda'n cymunedau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau tra'n gwarchod ein hamgylchedd naturiol, wedi bod yn dda hefyd, gyda 70% o'r dangosyddion yn uwch na'r targed.

4.9 Mae'r dangosyddion sydd wedi perfformio'n dda yn ystod y chwarter yn cynnwys:

4.9.1 Mae nifer o'r dangosyddion rheoli gwastraff (Dangosyddion 31, 33 a 34) yn Wyrdd yn erbyn eu targedau yn ystod y flwyddyn. Roedd 96% o'r strydoedd a arolygwyd yn ystod y chwarter yn lân, sydd yn well na'r 95% a gofnodwyd yn ystod Chwarter 1. Roedd preswylwyr wedi ailgylchu mwy yn ystod Chwarter 2 nac yn Chwarter 1, fel y dengys gwybodaeth hanesyddol. Er bod hyn yn gadarnhaol, mae cymorth pobl i ailgylchu mwy yn hanfodol os yw'r Ynys am gyflawni'r targed ailgylchu o 70% erbyn 2025.


4.10 Yn dilyn sylwadau gan y pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Gwaith yn 2021/22, mae targed blynyddol dangosydd 32 (y canran y gwastraff wedi'u aildddefnyddio, ailgylchu neu chompostio) bellach yn 64% sydd yn cyd fynd hefo targed statudol Llywodraeth Cymru.

Disgwylir i'r targed yma godi yn ystod 2023/24 er mwyn cwrdd a'r disgwyliadau statudol. I'r perwyl hynny, rydym yn cyd-weithio gyda WRAP Cymru i adnabod y gwelliannau a'r newidiadau sydd ei angen i gwrdd a'r targed cenedlaethol o 70% erbyn 2025.

Noder bod y targed ar gyfer yr dangosydd yma yn newid o chwarter i chwarter yn seiliedig ar berfformiad hanesyddol y dangosydd (gweler 2.3 uchod) e.e. disgwylir gasglu mwy o wastraff yn chwarter 1 a 2 o'i gymharu a chwarter 3 a 4 ac felly mae'r targedau yn adlewyrchu hyn.

4.11 Yr unig ddangosydd sy'n tanberfformio yn ystod y chwarter hwn yw:

4.11.1 Dangosydd 36 – canran yr apeliadau cynllunio a wrthodwyd – gyda pherfformiad o 36% yn erbyn targed o 65%. Mae hyn yn is na'r un cyfnod yn 2021/22 pan wrthodwyd 43%.



Gellir gweld darlun tebyg iawn i'r hyn a nodwyd ar gyfer y dangosydd hwn yn adroddiad monitro'r cerdyn sgorio ar gyfer Chwarter 1. Mae'r dangosydd hwn yn ymwneud â nifer fach o apeliadau cynllunio, a gall y nifer newid yn sylweddol o un chwarter i'r llall. Gwrthodwyd un o'r tair apêl yn ystod y chwarter sy'n golygu fod pedwar o'r un ar ddeg apêl wedi cael eu gwrthod yn ystod y flwyddyn hyd yma.

Mae'r Cyngor yn parhau i sicrhau fod penderfyniadau cynllunio'n 'gadarn' a bod modd eu cyfiawnhau, serch hynny, nid oes gan y Cyngor unrhyw ddylanwad ar benderfyniadau apêl. Byddwn yn parhau i fonitro penderfyniadau apêl ar geisiadau tebyg i nodi a oes patrwm yn datblygu a fyddai'n golygu bod angen dehongli ein polisiau yn wahanol.

5. ARGYMHELLION

5.1 Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at rai straeon cadarnhaol mewn perthynas â pherfformiad chwarter 2. Mae rhai o'r uchafbwyntiau hyn yn cynnwys:

- Canran yr aelwydydd (gyda phlant) a gafodd eu hatal rhag dod yn ddiartref
- Nifer cyfartalog y dyddiau calendr a gymerwyd i osod unedau llety sy'n rhai y mae modd eu gosod
- Mae pob un o ddangosyddion y Gwasanaethau Oedolion yn uwch na'r targed ar gyfer y chwarter
- Cyfradd absenoldebau staff

5.2 Mae'r sefyllfa ar ddiwedd chwarter 2 yn gadarnhaol. Er bod hyn yn galonogol, mae'n bwysig nodi fod tueddiadau ar i lawr yn ymddangos yn erbyn nifer o ddangosyddion sy'n gysylltiedig â pherfformiad, yn arbennig mewn perthynas ag Amcan Llesiant 2. Bydd angen rhoi sylw penodol i'r dangosyddion hyn a phrosesau a ffrydiau gwaith cysylltiedig wrth i ni symud i mewn i fisoedd oer y flwyddyn, gyda thlodi tanwydd a thlodi bwyd yn cynyddu drwy'r amser yn ein cymunedau, yn ogystal â'r cynnydd mewn costau byw y mae pawb yn eu hwynebu.

5.3 Gofynnir i'r pwyllgor dderbyn y mesurau lliniaru a amlinellir uchod.

6. RHESTR TERMAU

6.1 Isod mae rhestr o'r byrfoddau a ddefnyddir yn yr adroddiad a'r Cerdyn Sgorio

- 6.1.1 DPA – Dangosydd Perfformiad Allweddol
- 6.1.2 Ch1 – Chwarter 1
- 6.1.3 Ch2 – Chwarter 2
- 6.1.4 Ch3 – Chwarter 3
- 6.1.5 Ch4 – Chwarter 4
- 6.1.6 Statws CAG – Coch – mwy na 10% yn is na'r targed a/neu angen ymyrraeth sylweddol
Ambr – rhwng 5% a 10% yn is na'r targed a/neu angen rhywfaint o ymyrraeth
Melyn – o fewn 5% i'r targed
Gwyrdd – ar darged, neu'n uwch na'r targed

- 6.1.7 Tuedd – Mae'r saethau tuedd yn cynrychioli perfformiad o gymharu â'r chwarter blaenorol
- 6.1.8 CALI – Cyfystyr ag Amser Llawn
- 6.1.9 RhG – Rhyddid Gwybodaeth
- 6.1.10 CRT – Cyfrif Refeniw Tai
- 6.1.11 NEET – Nid mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant
- 6.1.12 DTL – Anodd ei Osod
- 6.1.13 NERS – Cynllun Cenedlaethol i Atygyfeirio Cleifion i Wneud Ymarfer Corff
- 6.1.14 CAP – Cofrestr Amddiffyn Plant
- 6.1.15 CSYM – Cyngor Sir Ynys Môn

Atodiad A - Cerdyn Sgorio Corfforaethol - Corporate Scorecard Ch-Q2 2021/22

Rheoli Perfformiad / Performance Management	CAG / RAG	Tuedd / Trend	Canlyniad / Actual	Targed / Target	Targed BI / Yr Target	Canlyniad 21/22 Result	Canlyniad 20/21 Result
Amcan 1 - Sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir							
1) Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd (tymhorol) (Ch3)						-	-
2) Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd (tymhorol) (Ch3)						-	-
3) Canran gadawyr Blwyddyn 11 nad ydynt mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth [NEET] (blynyddol) (Ch4)						2.60%	4.2%
4) Canran y disgyblion a aseswyd yn y Gymraeg ar ddiwedd y Cyfnod Syflaen (blynyddol) (Ch3)						-	-
5) Canran y disgyblion blwyddyn 11 sy'n astudio'r Gymraeg [iaith gyntaf] (blynyddol) (Ch4)						68%	-
6) Canran y Dangosyddion Ansawdd (â thargedau) a gyflawnwyd gan y gwasanaeth llyfrgelloedd (blynyddol) (Ch3)						-	-
7) Nifer yr ymweliadau â chyfleusterau chwaraeon a hamdden	Gwyrdd / Green	↑	261k	253k	546k	388k	189k
8) Canran y sefydliadau bwyd sy'n cyrraedd safonau hylendid bwyd	Gwyrdd / Green	⇒	98%	95%	95%	98%	98%
9) Canran cleientiaid NERS a gwblhaodd y rhaglen ymarfer corff	Gwyrdd / Green	↓	66.50%	50%	50%	47.5%	-
10) Canran cleientiaid NERS yr oedd eu hiechyd wedi gwella wrth gwblhau'r rhaglen ymarfer corff	Gwyrdd / Green	↑	81.50%	80%	80%	84%	-
11) Nifer o eiddo preifat gwag wedi'u adfer i ddefnydd	Gwyrdd / Green	↑	40	25	50	91	94
12) Nifer y cartrefi newydd a grewyd o ganlyniad i ddechrau aildddefnyddio eiddo gwag			1	1	3	1	9
13) Gwasanaethau landlordiaid: Nifer y diwrnodau ar gyfartaledd i cwblhau atgyweiriadau	Gwyrdd / Green	↓	11.43	18	18	13.89	8.1
14) Canran y tenantiaid sy'n fodlon gyda gwaith atgyweirio ymatebol (blynyddol) (Ch4) [Dangosydd Lleol]						-	-
Amcan 2 - Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus er mwyn eu cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosibl							
15) Cyfradd y bobl a gedwir yn yr ysbyty wrth aros am ofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth 75+ oed (Ch3)						-	-
16) Canran yr ymholiadau ynghylch amddiffyn oedolion a gwblhawyd o fewn terfynau amser statudol	Gwyrdd / Green	↓	90.85%	90%	90%	94.78%	92.31%
17) Canran yr oedolion a gwblhaodd gyfnod ail-alluogi ac nad oes ganddynt becyn gofal a chymorth 6 mis yn ddiweddarach	Gwyrdd / Green	↑	63.83%	62%	62%	64.85%	60.36%
18) Cyfradd y bobl hŷn (65 mlwydd oed neu hŷn) y mae'r awdurdod yn eu cefnogi mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth 65 oed neu hŷn ar 31 Mawrth [Dangosydd Lleol]	Gwyrdd / Green	↓	16.69	19	19	14.33	15.36
19) Canran y rhai sy'n ofalwyr i oedolion a ofynnodd am asesiad neu adolygiad ac a gafodd asesiad neu adolygiad iddyn nhw eu hunain yn ystod y flwyddyn	Gwyrdd / Green	↑	94.20%	93%	93%	96.10%	98.20%
20) Canran yr asesiadau plant a gwblhawyd o fewn amser	Melyn / Yellow	↑	89.24%	90%	90%	87.15%	86.87%
21) Canran y plant mewn gofal y bu'n rhaid iddynt symud 3 gwaith neu fwy	Gwyrdd / Green	↓	4.67%	5.00%	10%	9.79%	12.34%
22) Canran y cyfeiriadau o blant sy'n cael eu hail-gyfeirio o fewn 12 mis [Dangosydd Lleol]	Melyn / Yellow	↓	18.95%	15%	15%	5.74%	32.00%
23) Cyfanswm yr amseroedd (mewn diwrnodau) a dreuliodd pob plentyn ar y CPR os cafodd ei dynnu oddi ar y CPR yn ystod y flwyddyn	Coch / Red	↑	312	270	270	318	258
24) Canran y cyfeiriadau yn ystod y flwyddyn lle caiff penderfyniad ei wneud o fewn 1 diwrnod gwaith	Gwyrdd / Green	↑	98.89%	95%	95%	99.10%	99.56%
25) Canran yr ymweliadau statudol â phlant mewn gofal oedd i fod i ddiwydd yn ystod y flwyddyn, a gynhaliwyd yn unol â'r rheoliadau	Melyn / Yellow	↑	87.65%	90%	90%	85.99%	87.74%
26) Canran y teuluoedd a ataliwyd yn llwyddiannus rhag mynd yn ddigartref	Gwyrdd / Green	↓	88.34%	80%	80%	80.95%	74.74%
27) Canran y teuluoedd (gyda plant) a ataliwyd yn llwyddiannus rhag mynd yn ddigartref [Dangosydd Lleol]	Gwyrdd / Green	↓	95.00%	85%	85%	92.00%	75.47%
28) Nifer y dyddiau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i ddarparu Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl	Melyn / Yellow	↓	173	170	170	172.3	169
29) Nifer cyfartalog y dyddiau calendr a gymerwyd i osod unedau llety sy'n rhai y mae modd eu gosod (ac eithrio Eiddo Anodd eu Gosod)	Gwyrdd / Green	↓	30.3	40	40	28.7	45.6
30) Gwasanaethau landlordiaid: Canran y rhent wedi'i golli o ganlyniad i eiddo fod yn wag	Melyn / Yellow	↓	1.83%	1.70%	1.70%	1.66%	1.98%
Amcan 3 - Gweithio gyda'n cymunedau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau tra'n gwarchod ein hamgylchedd naturiol							
31) Canran y strydoedd sy'n lân	Gwyrdd / Green	↑	96%	95%	95%	95.50%	92.00%
32) Canran y gwastraff wedi'u aildddefnyddio, ailgylchu a chompostio	Melyn / Yellow	↓	65.18%	66%	64%	62.39%	62.96%
33) Nifer cyfartalog y dyddiau gwaith a gymerwyd i glirio digwyddiadau tipio anghyfreithlon	Gwyrdd / Green	⇒	1	1	1	0.25	0.95
34) Cilogramau y gwastraff gweddilliol a eneradir fesul person	Gwyrdd / Green	↓	106kg	110kg	220kg	223kg	214kg
35) Canran yr holl geisiadau cynllunio a benderfynwyd mewn pryd	Melyn / Yellow	↓	85%	90%	90%	79%	79%
36) Canran yr apeliadau cynllunio a wrthodwyd	Coch / Red	↓	36%	65%	65%	50%	58%
37) Canran yr achosion gorfodaeth cynllunio yr ymchwiliwyd iddynt o fewn 84 diwrnod	Gwyrdd / Green	↓	90%	80%	80%	84%	74%
38) Canran y prif ffyrdd A sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol)	Gwyrdd / Green	↑	2.6%	3%	3%	3%	4.60%
39) Canran y ffyrdd B sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol)	Gwyrdd / Green	↑	2.6%	4%	4%	2.80%	3.80%
40) Canran y ffyrdd C sydd mewn cyflwr gwael (blynyddol)	Gwyrdd / Green	↑	7.6%	9%	9%	8.20%	8.50%
41) Defnydd o danwydd ffosil bras gan fflyd y Cyngor (tCO2e)		↑	251.73			486.85	385
42) Nifer y milltiroedd a deithiodd fflyd y Cyngor (milltiroedd)		↓	843,416			1,524,961	1,254,419
43) Nifer y milltiroedd a deithiodd fflyd lwyd / gweithwyr y Cyngor (milltiroedd)		↑	451,696			786,247	-
44) Newid net mewn Allyriadau Nwyon Tŷ Gwydr (tCO2e) - Fflyd y Cyngor (Blynyddol) (%)						+ 26%	-

Melyn - o fewn 5% o'r targed Gwyrdd - ar darged neu'n uwch Mae saethau tuedd yn cynrychioli perfformiad chwarter ar chwarter Adroddir ar yr holl ddangosyddion uchod yn genedlaethol oni nodir yn wahanol

Atodiad A - Cerdyn Sgorio Corfforaethol - Corporate Scorecard Ch-Q2 2022/23

Gofal Cwsmer / Customer Service	CAG / RAG	Tuedd / Trend	Canlyniad / Actual	Targed / Target	Canlyniad 21/22 Result	Canlyniad 20/21 Result
Siarter Gofal Cwsmer / Customer Service Charter						
01) Nifer y cwynion a dderbyniwyd (ac eithrio Gwasanaethau Cymdeithasol)	Gwyrdd / Green	↑	25	33	55	43
02) Nifer y cwynion Cam 2 a dderbyniwyd ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol			2	-	9	6
03) Nifer y Cwynion a gadarnhawyd / gadarnhawyd yn rhannol			5	-	20	8
04) % o ymatebion ysgrifenedig o fewn 20 diwrnod (Corfforaethol)	Gwyrdd / Green	↑	87%	80%	80%	88%
05) % o ymatebion ysgrifenedig o fewn 20 diwrnod (Gwasanaethau Cymdeithasol)	Gwyrdd / Green	↑	80%	80%	66%	75%
06) Nifer y cwynion Cam 1 ar gyfer Gwasanaethau Cymdeithasol		↓	11	-	41	24
07) Nifer o bryderon (ac eithrio Gwasanaethau Cymdeithasol)		↓	176	-	189	104
08) Nifer o ganmoliaethau		↑	217	-	658	662
09) % o Ceisiadau Rhyddid Gwybodaeth a Ymatebwyd o fewn yr Amserlen	Coch / Red	↑	72%	80%	79%	79.4%
Newid Cyfrwng Digidol / Digital Service Shift						
10) Nifer o ddefnyddwyr AppMôn (blynyddol)		↑	56k	-	51k	33.5k
11) Nifer o adroddiadau a dderbyniwyd gan AppMôn		↑	21k	-	66k	58k
12) Nifer o daliadau dros y we		↓	11.5k	-	21k	18.5k
13) Nifer o daliadau dros y ffôn		↓	4.5k	-	11k	7k
14) Nifer o 'ddilynwyr' CSYM ar Cyfryngau Cymdeithasol		↑	98k	-	92k	42k
15) Nifer o ymwelwyr i wefan y Cyngor		↑	124k	-	-	-

Rheoli Pobl / People Management	CAG / RAG	Tuedd / Trend	Canlyniad / Actual	Targed / Target	Canlyniad 21/22 Result	Canlyniad 20/21 Result
01) Nifer y staff yr awdurdod cyfan, gan gynnwys athrawon a staff mewn ysgolion (FTE)			2239	-	2202	2180
02) Absenoldeb Salwch - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE	Gwyrdd / Green	↓	3.6	3.81	8.73	6.68
03) Salwch Tymor Byr - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE			1.47	-	3.70	1.94
04) Salwch Tymor Hir - dyddiau / shifftiau gwaith cyfartalog a gollwyd fesul FTE			2.12	-	5.03	4.74
05) Gweithwyr yr Awdurdod Lleol yn gadael (%) (Trosiant) (Blynyddol) (Ch4)				-	10%	6%

Rheolaeth Ariannol / Financial Management	CAG / RAG	Tuedd / Trend	Cyllideb / Budget	Canlyniad / Actual	Amrywiad / Variance (%)	Rhagolygon o'r Gwariant / Forcasted Actual	Amrywiad a Ragwelir / Forcasted Variance (%)
01) Y gyllideb o gymharu â Ffigyrau Gwirioneddol	Gwyrdd / Green	↑	£70,621,000	£69,375,000	-1.76%		
02) Alldro diwedd blwyddyn a ragwelir (Refeniw)	Melyn / Yellow	↓	£158,367,000			£158,479,000	0.07%
03) Alldro diwedd blwyddyn a ragwelir (Cyfalaf)		↓	£36,691,000			£34,068,000	-7.15%
04) Incwm o gymharu â Thargedau (ac eithrio grantiau)	Gwyrdd / Green	↑	-£6,467,570	-£7,420,135	14.73%		
05) Swm a fenthycwyd		↓	£12,052,000			£10,310,000	-14.45%
06) Chost benthyca		↑	£4,152,796			£4,037,067	-2.79%
07) % of y Dreth Gyngor a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf)	Melyn / Yellow	↑		98.31%			
08) % y Trethi Busnes a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf)	Gwyrdd / Green	↑		98.95%			
09) % y Rhent Tai a gasglwyd (am y 3 blynedd ddiwethaf)	Melyn / Yellow	↓		100.1%			
10) % y Rhent Tai a gasglwyd heb gynnwys taliadau budd-dal (am y 3 blynedd ddiwethaf)	Melyn / Yellow	↓		100.5%			

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN <u>Templed Adroddiad Sgriwtini</u>	
Pwyllgor:	Sgriwtini Corfforaethol
Dyddiad:	22 Medi 2022
Pwnc:	CYFRIFIAD (2021): DATA POBLOGAETH YNYS MÔN
Pwrpas yr Adroddiad:	Gwell dealltwriaeth o ddemograffeg poblogaeth Môn
Cadeirydd Sgriwtini:	CYNG ROBERT LL JONES
Aelod(au) Portfolio:	CYNG ROBIN W WILLIAMS
Pennaeth Gwasanaeth:	CARYS EDWARDS
Awdur yr Adroddiad:	GETHIN MORGAN
Rhif Ffôn:	01248 752111
E-bost:	GethinMorgan@anglesey.gov.uk
Aelodau lleol:	Amherthnasol

1. Argymhelliad/ion

- 1.1. Bwriad yr adroddiad hwn yw amlinellu a thynnu sylw at newidiadau/tueddiadau a welwyd yn nemograffeg Ynys Môn yn ystod y blynyddoedd 1981-2021.
- 1.2. Mae'r cyfrifiad yn rhoi'r darlun manylaf posibl o'r boblogaeth gyfan, gyda'r un cwestiynau craidd yn cael eu gofyn i bawb ledled Cymru a Lloegr.
- 1.3. Gan ddefnyddio'r data hwn, gallwn roi trosolwg cywir o boblogaeth Ynys Môn a'r newidiadau a welir. Bwriad y trosolwg hwn yw helpu i hwyluso'r broses o wneud penderfyniadau wrth symud ymlaen lle bo hynny'n berthnasol.
- 1.4. Gofynnir i'r Pwyllgor dderbyn ac i nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad hwn.

2. Cyswilt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Arall

3. Egwyddorion Fel Canllaw ar gyfer Sgriwtini

Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-

- 3.1 Effaith mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**
- 3.2 Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**
- 3.3 Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**
- 3.4 Craffu'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu warantu ansawdd **[ffocws ar berfformiad ac ansawdd]**

3.5 Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:

- hirdymor
- atal
- integreiddio
- cydweithio
- cynnwys

[ffocws ar lesiant]

4. Cwestiynau Sgriwtini Allweddol

4.1 I ba raddau bydd y wybodaeth am y boblogaeth yn dylanwadu ar strwythur a natur ein gwasanaethau yn y tymor hir?

4.2 Pa oblygiadau tymor canol sydd i wasanaethau'r Cyngor?

4.3 Mae trefniadau ar waith i gyhoeddi Cynllun newydd y Cyngor ar gyfer y 5 mlynedd nesaf. Ym mha ffyrdd bydd data'r Cyfrifiad yn dylanwadu ar flaenoriaethau darparu gwasanaethau rheng flaen yr Weinyddiaeth bresennol?

5. Cefndir / Cyd-destun

5.1 Mae'r adroddiad hwn yn portreadu demograffeg poblogaeth y Cyngor yn dilyn rhyddhau cyfrifiad 2021 ym mis Mehefin (28/06/2022)

5.2 Mae'r adroddiad hefyd yn tynnu sylw at y newidiadau a welwyd ym mhoblogaeth Ynys Môn rhwng y blynyddoedd 1981 – 2021. Dyma rai o'r newidiadau hyn:

- Poblogaeth Ynys Môn.
- Dadansoddiad poblogaeth yn ôl oedran.
- Cymhariaeth ranbarthol o'r boblogaeth
- Dwysedd poblogaeth.
- Nifer yr aelwydydd

5.3 Ymhellach i ddadansoddi newid, mae'r adroddiad hefyd yn rhagweld demograffeg Ynys Môn yn y dyfodol sy'n seiliedig ar dueddiadau cyfredol.

5.4 Roedd y data a ddefnyddiwyd ar gyfer yr adroddiad hwn yn seiliedig ar y datganiad cyntaf i'r Cyfrifiad 28/06/2022. Bydd datganiadau yn y dyfodol yn cael eu gwerthuso, a bydd yr adroddiad hwn yn cael ei ddiweddarau i adlewyrchu'r datganiadau hyn.

6 – Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb [cynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]

Amherthnasol

7 – Oblygiadau Ariannol

8 – Atodiadau

Census (2021) - Anglesey Population Data v3 cym

9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):

ONS -

<https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates/bulletins/populationandhouseholdestimatesenglandandwales/census2021>

Nomis -

[Labour Market Profile - Nomis - Official Census and Labour Market Statistics \(nomisweb.co.uk\)](https://www.nomisweb.co.uk/labour-market-profile)



CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

Cyfrifiad (2021): Data Poblogaeth Ynys Môn

Yn seiliedig ar ddata cyfrifiad (1981-2021)


Fersiwn 3

09/09/2022

Morgan L Lowden

Newid yn y Boblogaeth

- Ar ddiwrnod y Cyfrifiad, 21 Mawrth 2021, 68,900 oedd poblogaeth Ynys Môn.



Ffigwr 1

- Mae poblogaeth Ynys Môn wedi gostwng 851 (-1.2%) ers y cyfrifiad diwethaf yn 2011, pan roedd y boblogaeth yn 69751.
- Roedd cyfradd twf y boblogaeth ar Ynys Môn rhwng 2011 a 2021 (-1.2%) yn is na'r gyfradd twf rhwng 2001 a 2011, pan dyfodd y boblogaeth 4.3%.
- Mae cyfradd twf y boblogaeth ar Ynys Môn wedi gostwng (-1.2%) rhwng 2011 a 2021.
- Roedd hyn yn is na'r gyfradd rhwng 2001 a 2011, pan dyfodd y boblogaeth 4.3%.


Year
2021

68900
Population


16.1%
Under 15 years

57.5%
15 to 64 years

26.4%
65 years and over



Ages	2021
00-04	3200
05-09	3900
10-14	4000
15-19	3400
20-24	3000
25-29	3300
30-34	3700
35-39	3500
40-44	3500
45-49	4000
50-54	4900
55-59	5200
60-64	5100
65-69	4800
70-74	5000
75-79	3700
80-84	2500
85-89	1300
90 +	900



Year
2021


Percentage change from previous census

Age	2001 % Change	2011 % Change	2021 % Change
00-04	-1.0	0.2	-0.9
05-09	-0.1	-1.3	0.7
10-14	0.2	-1.2	0.4
15-19	-1.2	-0.3	-0.6
20-24	-1.8	0.6	-1.2
25-29	-1.1	-0.1	-0.4
30-34	-0.1	-1.1	0.3
35-39	0.3	-1.1	-0.4
40-44	-0.7	0.2	-1.6
45-49	0.1	0.2	-1.0
50-54	2.0	-0.9	0.2
55-59	1.7	-0.5	0.9
60-64	0.5	1.8	-0.4
65-69	-0.2	1.5	0.1
70-74	0.4	0.7	1.8
75-79	0.2	0.2	1.3
80-84	0.3	0.5	0.5
85 +	0.6	0.6	0.3

Ffigwr 2


Poblogaeth yn ôl Oedran

- Yn Ynys Môn roedd mwy o bobl nag erioed yn y grwpiau oedran hŷn. Roedd 26.4% o'r boblogaeth yn 65 oed neu hŷn (i fyny o 22.4% yn 2011).




Ffigwr 3

- Yn 2021 roedd cyfran y boblogaeth sydd dros 65 oed neu hŷn 11.4% yn uwch nag yn 1981 pan roedd y gyfran yn 15%.




Ffigwr 4

- Mae 2200 o boblogaeth Ynys Môn yn 85 oed neu hŷn, sef 3.2%. Mae'r ffigwr hwn wedi cynyddu o 2026, 2.9%, yn 2011.



Ffigwr 5

- Fel y gwelir yn **Ffigwr 5**, mae nifer y bobl 85 + wedi cynyddu rhwng 2011 a 2021. O edrych ar y categori oedran hwn rhwng 1981 - 2021 gwelwn fod y ffigwr hwn wedi cynyddu hyd yn oed yn fwy. Er mwyn gwneud cymhariaeth, mae'r ffigwr ar gyfer y grŵp oedran 00-04 hefyd wedi'i nodi isod. Yn 1981 roedd y gwahaniaeth rhwng y grwpiau hyn yn 5.6%, erbyn 2021 roedd yn 1.4%.



Ffigwr 6

Cymariaethau Rhanbarthol


- Mae poblogaeth Ynys Môn wedi gostwng 851 (-1.2%) ers y cyfrifiad diwethaf yn 2011, pan roedd y boblogaeth yn 69751. O gymharu â gweddill Cymru, mae Ynys Môn yn y 18fed safle gyda dim ond pedair sir arall yn gweld mwy o ostyngiad na hi rhwng 2011 a 2021.

LA name	2011	2021	Percentage change
Newport	145736	159600	9.50
Cardiff	346090	362400	4.70
Bridgend	139178	145500	4.50
Vale of Glamorgan	126336	131800	4.30
Carmarthenshire	183777	187900	2.20
Denbighshire	93734	95800	2.20
Monmouthshire	91323	93000	1.80
Neath Port Talbot	139812	142300	1.80
Flintshire	152506	155000	1.60
Rhondda Cynon Taf	234410	237700	1.40
Torfaen	91075	92300	1.30
Pembrokeshire	122439	123400	0.80
Powys	132976	133200	0.20
Wrexham	134844	135100	0.20
Merthyr Tydfil	58802	58800	0.00
Swansea	239023	238500	-0.20
Conwy	115228	114800	-0.40
Isle of Anglesey	69751	68900	-1.20
Caerphilly	178806	175900	-1.60
Gwynedd	121874	117400	-3.70
Blaenau Gwent	69814	66900	-4.20
Ceredigion	75922	71500	-5.80

Ffigur 7

- Roedd mwy o bobl nag erioed mewn grwpiau oedran hŷn yn Ynys Môn. Roedd 2.4% o'r boblogaeth yn 65 oed neu hŷn. Ar hyn o bryd mae Ynys Môn yn y 3ydd safle, gyda dim ond dwy sir arall â chanran uwch o bobl 65 oed neu hŷn.

Aged 65 years and over 2021 (percent) by LA name



Ffigur 8


Under 15 years comparison %						
County	1981	1991	2001	2011	2021	1981 - 2021 % Difference
Anglesey	23.20	19.20	18.30	15.90	16.10	-7.10
Conwy	17.90	16.40	17.20	15.40	15.00	-2.90
Gwynedd	20.50	18.10	18.20	16.10	15.40	-5.10

15 to 64 years comparison %						
County	1981	1991	2001	2011	2021	1981 - 2021 % Difference
Anglesey	61.70	63.20	62.90	61.70	57.50	-4.20
Conwy	57.60	59.40	59.70	60.10	57.70	0.10
Gwynedd	61.00	62.60	62.80	63.30	61.40	0.40

65 years and over comparison %						
County	1981	1991	2001	2011	2021	1981 - 2021 %
Anglesey	15.00	17.60	18.90	22.40	26.40	11.40
Conwy	24.50	24.20	23.10	24.40	27.30	2.80
Gwynedd	18.50	19.30	19.00	20.60	23.20	4.70

Ffigwr 9


- Mae **Ffigwr 9** yn cymharu tri grŵp oedran penodol mewn tair sir gyfagos. Rhwng 1981 a 2021, Ynys Môn welodd y gostyngiad mwyaf o ran canran yn y categorïau “dan 15 oed” a “15 i 64” oed.
- Gwelir mai Ynys Môn sydd â'r cynnydd mwyaf yn y categori “65 oed neu hŷn”, sef 11.40%.
- Er mai Conwy sydd â'r canran uchaf o bobl “65 oed a hŷn” hon yw'r sir sydd â'r newid lleiaf ers 1981, sef 2.8%.
- Mae'r newid yng Nghonwy a Gwynedd wedi digwydd yn fwy graddol na'r hyn a welwyd yn Ynys Môn, sy'n awgrymu bod demograffeg poblogaeth y siroedd hyn yn fwy sefydlog. Amlygir hyn ymhellach yn y cynnydd/gostyngiad cyflym a welir ar gyfer Ynys Môn yn **Ffigwr 10**.



Ffigwr 10

Dwysedd Poblogaeth

- Ar gyfartaledd roedd 97 o drigolion i bob cilomedr sgwâr ar Ynys Môn yn 2021, sydd lawer iawn is na'r cyfartaledd yng Nghymru (sef 150 o drigolion i bob cilomedr sgwâr).
- O gymharu â gweddill Cymru mae Ynys Môn yn y 17eg safle gyda Chaerdydd ar y brig gyda 2,572 a Phowys ar y gwaelod gyda 26.



Ffugwr 11


- Mae dwysedd poblogaeth Ynys Môn wedi gostwng ers 2011 (98 o drigolion i bob cilomedr sgwâr) fodd bynnag ers 1981 mae 4 o drigolion yn fwy i bob cilomedr sgwâr.

Aelwydydd

- Roedd 30,800 o aelwydydd gydag o leiaf un preswlydd yn Ynys Môn. Mae hyn yn gynydd o 200 (0.7%) ers 2011, pan roedd 30,600 o aelwydydd. Ers 2011 mae aelwydydd gydag o leiaf un preswlydd wedi cynyddu 2000 (6.9%).


Rhagolygon Poblogaeth

- Roedd poblogaeth breswyl Ynys Môn oddeutu 68,900 yn 2021. Gan ddefnyddio'r ffigwr hwn a'r ffigurau blaenorol gallwn dybio y bydd y ffigwr wedi cynyddu i 69847 erbyn 2031 (+1.4% o 2021).
- Rhagwelir gostyngiad o 3% yng nghanran y boblogaeth sydd "dan 15 oed" erbyn 2031. Fel y gwelwn yn **Ffigwr 12** rhagwelir gostyngiad o 10% rhwng 1981 a 2031.
- Rhagwelir cynnydd o 0.9% yn y categori "15 i 64 oed" fodd bynnag os cymharwn hyn â'r ffigwr ar gyfer 1981 gwelwn ostyngiad o 3.3%.
- Yn 2031 rhagwelwn gynnydd o 1.8% yn y categori "65 oed a hŷn", mae hyn yn cyd-fynd â thueddiadau blaenorol ac os cymharwn hyn â 1981 gwelwn gynnydd o 13.2%.



Ffigwr 12

- Fel y gwelir yn **Ffigwr 6** rydym wedi gweld cynnydd yn y grwpiau oedran hŷn a gostyngiad yn y grwpiau oedran iau. I ddangos hyn rydym wedi defnyddio'r grwpiau oedran "00-04" a "85+" yn **Ffigwr 13** ac wedi ychwanegu'r flwyddyn 2031. Fel y nodwyd yn flaenorol mae'r bwlch rhwng y grwpiau oedran hyn yn mynd yn llai ac erbyn 2031 y gwahaniaeth fydd 0.4% sydd yn ostyngiad sylweddol ers 1981 (5.6%).



Ffigwr 13

Dilysrwydd Data

- Mae'r cyfrifiad yn rhoi cipolwg o'r holl bobl ac aelwydydd yng Nghymru a Lloegr ar Ddiwrnod y Cyfrifiad.
- Mae'r cyfrifiad yn darparu gwybodaeth fanwl am y boblogaeth gyfan, ac mae rhai o'r prif gwestiynau'n cael eu gofyn i bawb yng Nghymru a Lloegr.
- Lluniwyd yr adroddiad hwn gyda data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS), StatsCymru, y Cyfrifiad a DataCymru.
- Caiff y ffynonellau hyn eu gwirio'n rheolaidd rhag unrhyw ddiweddariadau, ac mae'n bosib y caiff y cynnwys ei newid i adlewyrchu'r diweddariadau hyn.

Crynodeb

1. Fel y gwelir yn *Ffigwr 9* gwelwyd gostyngiad sylweddol yn y categori oedran 00-04 ers 1981 a ragwelir y bydd y duedd hon yn parhau yn 2031.
 - Sut fydd hyn yn effeithio ar ein darpariaeth Addysg/Plant a Phobl Ifanc? Er enghraifft, os bydd y duedd hon yn parhau yn y tymor hwy, a fydd yn rhaid i ni ehangu neu leihau ein hystâd ysgolion? A oes angen i ni ystyried hyn?
2. Mae mwy o bobl nag erioed mewn categorïau oedran hŷn yn Ynys Môn. Beth yw goblygiadau hyn wrth symud ymlaen?
 - Gwasanaethau Oedolion – pa effaith fydd y newid mewn demograffeg a chynnydd yn y grwpiau oedran hŷn yn ei gael ar y gwasanaethau Oedolion?
 - Tai – bydd y newid mewn demograffeg yn cynyddu'r galw am dai sy'n cwrdd ag anghenion pobl hŷn yn sylweddol, gan fod y duedd hon yn debygol o barhau a chan y bydd mwy o bobl nag erioed yn y grwpiau oedran hŷn erbyn 2031 efallai y bydd rhaid i ni edrych ar ddarparu llety addas.
 - Priffyrdd – mae'r boblogaeth hŷn yn fwy dibynnol ar drafnidiaeth gyhoeddus. Yn sgil y cynnydd yn y grwpiau oedran hŷn efallai y dylem edrych ar y goblygiadau i Ynys Môn.

Ar hyn o bryd rydym yn edrych ar y gyfres gyntaf o ystadegau'r cyfrifiad. Ym mis Hydref bydd rhagor o ddata'n cael ei ryddhau a gallwn ymhelaethu ar y pwyntiau uchod.

Ar hyn o bryd rydym yn edrych ar y tueddiadau o ran grwpiau oedran a phoblogaeth, ond wrth symud ymlaen byddwn yn gallu edrych ar yr wybodaeth yn fwy manwl a chyfuno hyn â'n data cyfredol. Er enghraifft gallwn weld o'r data cyfredol bod cynnydd wedi bod yn y grwpiau oedran hŷn, ond bydd y data a fydd yn cael ei ryddhau yn y dyfodol yn ein galluogi i ddweud yn bendant faint o bobl fydd angen gofal ychwanegol er enghraifft.

Ffynonellau

<https://gov.wales/population-and-household-estimates-wales-census-2021-html>

<https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/populationandmigration/populationestimates/bulletins/populationandhouseholdestimatesenglandandwales/census2021>

<https://statswales.gov.wales/Catalogue/Census/2021/usualresidentpopulation-by-sex-localauthority>

This page is intentionally left blank

CYNGOR SIR YNYS MÔN <u>Templed Adroddiad Sgrwtini</u>	
Pwyllgor:	Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol
Dyddiad:	22ain Tachwedd 2022
Pwnc:	Adroddiad Awdurdod Lleol Ynys Môn ar Arolwg Chwaraeon Ysgol: Chwaraeon Cymru
Pwrpas yr Adroddiad:	Cyflwyno Adroddiad Awdurdod Lleol Ynys Môn ar Arolwg Chwaraeon Ysgol: Chwaraeon Cymru
Cadeirydd Sgrwtini:	Cyng Robert LI Jones
Aelod(au) Portfolio:	Cyng. Carwyn Jones, Deilydd Portffolio Datblygu'r Economi, Hamdden a Thwristiaeth
Pennaeth Gwasanaeth:	Christian Branch
Awdur yr Adroddiad:	Christian Branch
Rhif Ffôn:	01248 752491
E-bost:	ChristianBranch@ynysmon.llyw.cymru
Aelodau Lleol:	Yn berthnasol i holl aelodau'r Pwyllgor Sgrwtini

1 – Argymhelliad/Argymhellion

Gofynnir i'r Pwyllgor:

A1 Ystyried a nodi cynnwys yr Adroddiad

2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor / Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill

Mae cynnwys yr adroddiad yn cyd-fynd â'r amcan o wella llesiant ein cymunedau, trwy amlygu fod ymarfer corff yn cyfrannu at gynnal a gwella llesiant mewn sawl ffordd.

3 – Egwyddorion fel canllaw ar gyfer Sgrwtini

Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-

- 3.1** Yr effaith y mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau [ffocws ar y cwsmer/dinesydd]
- 3.2** Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd [ffocws ar werth]
- 3.3** Edrych ar unrhyw risgiau [ffocws ar risg]
- 3.4** Sgrwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd [ffocws ar berfformiad ac ansawdd]
- 3.5** Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:
 - Hirdymor
 - Atal
 - Integreiddio
 - Cydweithio

- Cynnwys

[ffocws ar lesiant]

3.6 Effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar:

- y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010
- y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (wrth wneud penderfyniadau strategol)
- y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg

[ffocws ar gydraddoldeb a'r Gymraeg]

4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol

5 – Cefndir / Cyd-destun

5.1 Cydweithiodd y swyddogaeth Hamdden a'r Gwasanaeth Dysgu efo Chwaraeon Cymru ar gynnal arolwg chwaraeon ysgol. Pwrpas yr arolwg oedd rhoi llais i blant a phobl ifanc yr ynys ar wahanol agweddau o chwaraeon.

5.2 Mae'r adroddiad yn cyflwyno data ar ymateb ynys Môn, ynghyd â chymharu data rhanbarthol a chenedlaethol. Ymddangosir fod ymatebion Ynys Môn yn uwch na'r cyfartaleddau rhanbarthol a chenedlaethol mewn nifer themâu a'r dadansoddiadau.

5.3 Ceir isod grynodedb o ganfyddiadau arolwg Ynys Môn:

- Cymrodd 3,354 o ddisgyblion Ynys Môn ran yn yr arolwg
- Mae 40% o ddisgyblion Ynys Môn yn cymryd rhan mewn chwaraeon o leiaf 3 gwaith yr wythnos (39% yng Nghymru)
- 56% yn ystyried fod gwersi Addysg Gorfforol a chwaraeon yn eu helpu i fyw'n iach (51% yng Nghymru)
- Y gweithgaredd mwyaf poblogaidd ymhlith y merched yw nofio, a'r mwyaf poblogaidd ymhlith y bechgyn yw pêl droed
- 94% o ddisgyblion yn Ynys Môn eisiau gwneud mwy o chwaraeon
- Mae 43% o ddisgyblion Ynys Môn yn cymryd rhan mewn chwaraeon o leiaf tair gwaith yr wythnos trwy gyfrwng y Gymraeg, o gymharu â 26% trwy gyfrwng y Saesneg
- Mae 35% o ddisgyblion gydag anabledd neu nam yn cymryd rhan mewn chwaraeon o leiaf 3 gwaith yr wythnos, o gymharu â 41% sydd heb anabledd neu nam
- Mae 61% yn mwynhau Addysg Gorfforol yn fawr (57% yng Nghymru)

Cyflwynir yr adroddiad er gwybodaeth i'r Pwyllgor Sgriwtini. Bydd y Gwasanaethau perthnasol o fewn y Cyngor yn defnyddio canfyddiadau'r arolwg a'r data i lywio rhai o'u gweithgareddau chwaraeon i'r dyfodol.

6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]

6.1 Yr effeithiau posibl ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010

Dim yn berthnasol

6.2 Yr effeithiau posibl ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol yn eu bywydau (penderfyniadau strategol)

6.3 Yr effeithiau posibl ar y cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
--

7 – Goblygiadau Ariannol


Dim yn berthnasol

8 – Atodiadau

- | |
|---|
| 1. Adroddiad Ynys Môn ar Arolwg Chwaraeon Ysgol |
|---|

9 - Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):
--


sportwales
chwaraeoncymru



Adroddiad Ynys Môn

2022

Ystadegau Allweddol ar gyfer Ynys Môn



o ddisgyblion wedi cymryd rhan mewn chwaraeon trefnus y tu allan i'r cwricwlwm deirgwaith neu fwy yr wythnos *



o ddisgyblion yn teimlo bod eu syniadau am AG yn cael sylw 'bob amser'



o ddisgyblion yn credu bod AG a chwaraeon yn eu helpu 'yn fawr' i gael ffordd o fyw iach



Roedd bechgyn yn cymryd rhan yn bennaf mewn


Pêl Droed



Roedd merched yn cymryd rhan yn bennaf mewn

Nofio

Roedd y cyfranogiad ar ei uchaf ar gyfer:



*Mae chwaraeon trefnus yn cyfeirio at unrhyw gyfranogiad allgyrsiol neu mewn clwb cymunedol.

Cyflwyniad

Ar ôl cael ei ohirio oherwydd pandemig COVID-19, mae'r Arolwg Chwaraeon Ysgol yn ôl! Eleni, cymerodd 116,038 o ddisgyblion o 1,000 o ysgolion yng Nghymru ran.

Yn yr adroddiad hwn rydym wedi casglu'r hyn wnaethom ei ddysgu am ddisgyblion yn Ynys Môn, lle dywedodd 3,354 o ddisgyblion wrthym am eu profiadau o chwaraeon eleni.

Rydym wedi strwythuro'r adroddiad hwn o amgylch y Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru¹ – 'cenedl actif lle gall pawb gael mwynhad oes o chwaraeon'. Rydym eisiau i gynifer o bobl â phosibl gael eu hysbrydoli i fod yn actif drwy chwaraeon, lle mae pawb yn teimlo y gallant gymryd rhan, dim ots beth yw eu cefndir chwaraeon, mewn tirlun chwaraeon sy'n ymateb i anghenion pobl ar wahanol adegau yn eu bywyd, i greu ystod eang o brofiadau cadarnhaol.



Mae'r adroddiad hwn wedi'i drefnu mewn pedair adran



Cenedl Actif



Pawb



Gydol Oes



Mwynhad

Drwy ddefnyddio'r rhain fel sail i'n hadroddiad, gallwch weld sut mae Ynys Môn yn cyfrannu at y Weledigaeth, a lle gallai fod lle i wneud pethau'n wahanol. Darperir cymariaethau â Gogledd Cymru a Chymru drwyddo draw.

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys data allweddol a all eich helpu chi a'ch ysgolion i wella eu darpariaeth chwaraeon. Gobeithio y bydd y dystiolaeth yn yr adroddiad hwn yn eich galluogi i ddeall y tirlun chwaraeon ar gyfer pobl ifanc yn Ynys Môn a ledled Cymru yn well, ac y bydd yn eich cynorthwyo i gyfoethogi bywydau eich disgyblion.

Yn gywir

Brian Davies, Prif Swyddog Gweithredol Dros Dro

¹ www.visionforsport.wales

Cenedl actif




Y weledigaeth ar gyfer chwaraeon yng Nghymru yw creu cenedl egniol. Rydyn ni eisiau i gymaint o bobl â phosibl gael eu hysbrydoli i fod yn egniol trwy chwaraeon.

Amledd y cymryd rhan


Mae cyfran y plant sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon trefnus y tu allan i'r cwricwlwm deirgwaith neu fwy yr wythnos yn ddangosydd ar gyfer Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Yn Ynys Môn roedd 40% o blant yn cymryd rhan mewn chwaraeon y tu allan i'r cwricwlwm deirgwaith neu fwy yr wythnos. Mae hyn o gymharu â 39% ledled Gogledd Cymru a 39% ledled Cymru.

Cyfranogiad mewn chwaraeon trefnus y tu allan i'r cwricwlwm deirgwaith neu fwy yr wythnos



Mae 34% o ddisgyblion yn Ynys Môn yn adrodd nad ydynt yn cymryd rhan yn aml (h.y. llai nag unwaith yr wythnos), o gymharu â 36% ledled Gogledd Cymru a 36% ledled Cymru. Dywedodd 66% yn Ynys Môn eu bod yn cymryd rhan mewn chwaraeon unwaith yr wythnos o leiaf, o gymharu â 64% ledled Gogledd Cymru a 64% ledled Cymru.




Chwaraeon clwb allgyrsiol a chymunedol

Roedd 39% o ddisgyblion Ynys Môn yn cymryd rhan mewn chwaraeon allgyrsiol (h.y., clwb amser cinio neu ar ôl ysgol) yn aml (unwaith yr wythnos o leiaf) ym mlwyddyn ysgol 2021-22, o gymharu â 38% ledled Gogledd Cymru a 40% ledled Cymru.

Cymerodd 58% o ddisgyblion ran mewn chwaraeon mewn clwb cymunedol unwaith yr wythnos o leiaf, o gymharu â 56% ledled Gogledd Cymru a 56% ledled Cymru.


Dywedodd 56% o ddisgyblion yn Ynys Môn hefyd eu bod yn aelodau o glwb chwaraeon, o gymharu â 54% ledled Gogledd Cymru a 54% ledled Cymru.



Gwirfoddoli


Gall disgyblion weithio tuag at genedl actif hefyd drwy helpu i gyflwyno chwaraeon. Gofynnwyd i ddisgyblion a ydynt yn gwirfoddoli neu'n helpu gyda chwaraeon yn yr ysgol neu yn eu cymuned.

Dywedodd 30% o ddisgyblion yn Ynys Môn eu bod ar hyn o bryd yn gwirfoddoli o fewn neu'r tu allan i'r ysgol mewn rhyw ffordd, o gymharu â 25% ledled Gogledd Cymru a 24% ledled Cymru.



Darpariaeth AG

Argymhellwyd yn flaenorol bod ysgolion yn cynnig 120 munud o AG yr wythnos i ddisgyblion. Yn Ynys Môn, cynigiwyd 106 munud ar gyfartaledd i ddisgyblion ysgolion cynradd, a chynigiwyd 75 munud ar gyfartaledd i ddisgyblion ysgolion uwchradd. O gymharu, roedd 93 munud ar gyfartaledd ar gael i ddisgyblion cynradd ledled Cymru, a 93 munud ar gyfartaledd ar gael i ddisgyblion ysgolion uwchradd ledled Cymru.



Eleni, fe wnaethom ofyn i ysgolion hefyd faint o'r amser a neilltuir i AG oedd yn cael ei dreulio ar weithgareddau eraill, fel newid a pharatoi gweithgaredd. Yn Ynys Môn, dywedodd 43% o ysgolion cynradd a 100% o ysgolion uwchradd bod rhywfaint o'r amser a neilltuir i AG yn cael ei dreulio ar weithgareddau eraill. O gymharu, dywedodd 38% o ysgolion cynradd a 83% o ysgolion uwchradd yng Ngogledd Cymru, a 40% o ysgolion cynradd ac 80% o ysgolion uwchradd yng Nghymru, bod rhywfaint o'r amser a neilltuir i AG yn cael ei dreulio ar weithgareddau eraill.

Y chwaraeon mwyaf poblogaidd

Mae gwahaniaethau o ran rhywedd ym mhoblogrwydd chwaraeon penodol. Yn Ynys Môn, y gamp y cymerwyd rhan ynddi fwyaf ymhlith y merched oedd Nofio a'r gamp y cymerwyd rhan ynddi fwyaf ymhlith y bechgyn oedd Pêl Droed. Mae crynodeb o'r chwaraeon mwyaf poblogaidd yn Ynys Môn, Gogledd Cymru a Chymru i'w weld yn atodiad A.

Merched



Bechgyn



Pawb




Mae'r weledigaeth ar gyfer pawb. O bobl nad ydynt yn ystyried eu hunain fel rhai medrus mewn chwaraeon i bobl sy'n ennill medalau, ar draws yr holl ddemograffeg.

Rhywedd

Yn hanesyddol, bu bwlch mewn cyfranogiad chwaraeon ledled Cymru, gyda merched yn adrodd yn gyson am lai o gyfranogiad mewn chwaraeon na'u cyfoedion gwrywaidd. Hefyd, mae cyfranogiad ymhlith plant nad ydynt yn ystyried eu hunain fel gwryw neu fenyw yng Nghymru yn nodweddiadol is o hyd.

Yn Ynys Môn roedd 44% o fechgyn yn cymryd rhan mewn chwaraeon trefnus y tu allan i'r cwricwlwm deirgwaith neu fwy yr wythnos, o gymharu â 39% o ferched. Yn y cyfamser yng Ngogledd Cymru, roedd 43% o fechgyn a 36% o ferched yn cymryd rhan mewn chwaraeon trefnus y tu allan i'r cwricwlwm deirgwaith neu fwy yr wythnos.


Cyfranogiad mewn chwaraeon trefnus y tu allan i'r cwricwlwm deirgwaith neu fwy yr wythnos ar gyfer bechgyn a merchedation




Anabledd neu Nam

Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gwelwyd llai o fwllch mewn cyfranogiad chwaraeon rhwng unigolion ag anabledd neu nam, a'r rhai heb anabledd neu nam. Yn Ynys Môn, roedd 35% o ddisgyblion ag anabledd neu nam yn cymryd rhan mewn chwaraeon trefnus y tu allan i'r cwricwlwm deirgwaith neu fwy yr wythnos, o gymharu â 41% o ddisgyblion heb anabledd neu nam.

Cyfranogiad mewn chwaraeon trefnus y tu allan i'r cwricwlwm deirgwaith neu fwy yr wythnos gan ddisgyblion heb anabledd neu nam



Cyfranogiad mewn chwaraeon trefnus y tu allan i'r cwricwlwm deirgwaith neu fwy yr wythnos gan ddisgyblion ag anabledd neu nam




O gymharu, cymerodd 38% o ddisgyblion ag anabledd neu nam ran mewn chwaraeon trefnus y tu allan i'r cwricwlwm deirgwaith yr wythnos neu fwy ledled Gogledd Cymru, a 35% ledled Cymru².

² Oherwydd data annigonol ar lefelau daearyddol is, dim ond ar lefel Cymru y mae data ysgolion arbennig yn cael eu cynnwys, ac nid ar lefel Partneriaeth Chwaraeon Ranbarthol / Awdurdod Lleol.

Y Gymraeg

Gellir defnyddio chwaraeon i hybu'r defnydd o'r Gymraeg. Roedd 44% o'r rhai sy'n siarad Cymraeg yng Ngogledd Cymru yn cymryd rhan mewn chwaraeon trefnus y tu allan i'r cwricwlwm deirgwaith neu fwy yr wythnos, o gymharu â dim ond 34% o'r rhai nad oeddent yn siarad Cymraeg. O blith y rhai sy'n siarad Cymraeg, mae 28% yn derbyn hyfforddiant yn y Gymraeg y tu allan i'r ysgol.




Amddifadedd economaidd-gymdeithasol


Gwelodd pandemig COVID-19 lawer o anghydraddoldebau cymdeithasol yn gwaethygu, gan gynnwys y rhai sy'n effeithio ar chwaraeon.

Rydym yn defnyddio Prydau Ysgol Am Ddim (PYADd) fel mesur o amddifadedd economaidd-gymdeithasol, gyda PYADd1 yn cyfrif am y lleiaf a PYADd4 yn cyfrif am y mwyaf difreintiedig.

Mae 47% o ddisgyblion PYADd1 yn Ynys Môn yn cymryd rhan mewn chwaraeon trefnus y tu allan i'r cwricwlwm deirgwaith neu fwy yr wythnos, o gymharu â 29% yn PYADd4. Yn y cyfamser, mae 47% o ddisgyblion PYADd1 a 32% o ddisgyblion PYADd4 yng Nghymru yn cymryd rhan mewn chwaraeon trefnus y tu allan i'r cwricwlwm deirgwaith neu fwy yr wythnos.



Ethnigrwydd



Sylwer: Mae “-” yn cynrychioli llai na 30 o ymatebion wedi’u pwysoli, sy’n golygu na allwn adrodd yn fanwl gywir ar y ffigur %.

Gydol Oes




Mae'r weledigaeth am oes. Mae'n ymateb i anghenion pobl mewn gwahanol gyfnodau yn eu bywyd.

Effaith grwpiau blwyddyn

Mae cyfranogiad mewn chwaraeon yn amrywio gyda grwpiau blwyddyn, gan amlaf yn cyrraedd uchafbwynt pan fydd myfyrwyr ym mlynnyddoedd 5 a 6, ac wedyn yn gostwng yn gyffredinol o'r fan honno.


